**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad

2010-11

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad

2010-11

**COMISIWN CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

# CYLLIDEB DDRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN AR 31 MAWRTH 2011

## *Crynodeb*

1. Gosodir y gyllideb ddrafft hon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27. Bydd hefyd yn cynorthwyo â'r gwaith o baratoi'r Cynnig Cyllideb Blynyddol sy'n ofynnol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn ymdrin â'r adnoddau a'r arian y bydd eu hangen ar Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2011 a'r symiau a bennwyd dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedyn.

2. Bydd y Cynnig Cyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Comisiwn y Cynulliad, uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion hynny yn lle cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru, a swm yr arian y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net y rhagwelir y bydd angen i'r Comisiwn eu talu. Mae Cyllideb Ddrafft 2010-11 Comisiwn y Cynulliad, sy'n ymdrin â'r gofynion hyn, wedi'i nodi isod.

**Tabl 1: Cyllideb Ddrafft 2010-11 Comisiwn y Cynulliad**

| | **£000** |
|---|---|
| Adnoddau nad ydynt yn adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cymru i dalu costau refeniw a chyfalaf yn ymwneud â'r gwaith o weinyddu neu redeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau'n ymwneud â'r Comisiynydd Safonau; taliadau'n ymwneud â Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; unrhyw daliadau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaeth Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **48,973** |
| Adnoddau cronnus i'w cadw'n unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru :<br>• Drwy werthu asedau sefydlog ac unrhyw fath arall o incwm cyfalaf i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog;<br>• Incwm rhent; rhoddion; cymorth grant; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill ar gyfer y cyhoedd neu eraill i'w ddefnyddio i dalu costau gweinyddol y Cynulliad. | **210** |
| Y swm a geir o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y rhagwelir a fydd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn yng nghyswllt y gwasanaethau a'r dibenion uchod llai'r derbyniadau y disgwylir eu cadw a TAW y gellir ei adennill. | **43,405** |

3. Mae *Atodiad 1* yn dangos sut y caiff y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2010-11 ei dyrannu'n ôl gwasanaeth/swyddogaeth i gyflawni amcanion strategol Comisiwn y Cynulliad yn ystod Trydydd Tymor y Cynulliad.

Mae *Atodiad 2* yn dyrannu'r gwariant newydd arfaethedig yn erbyn dosbarthiadau refeniw a chyfalaf.
Mae *Atodiad 3* yn dadansoddi'r gyllideb adnoddau yn ôl natur y gwariant a'r incwm.
Mae *Atodiad 4* yn cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r arian y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru.

***Llywodraethu, Strategaeth a Chyflenwi***

4. Ym mis Mai 2007, crëwyd Comisiwn y Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cytunodd y Comisiwn, yn fuan iawn, ar ei ddiben ar gyfer Trydydd Tymor y Comisiwn: *gwneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru*.

5. Cytunwyd ar bum blaenoriaeth strategol ategol i lywio penderfyniadau ynghylch gwasanaethau ac adnoddau:

- **Hyrwyddo ac ehangu diddordeb pobl mewn datganoli**
  Drwy ein gwaith byddwn yn dangos bod y Cynulliad yn gweithio ar ran holl bobl Cymru ac yn annog rhagor ohonynt i gymryd rhan fwy ymarferol yn y broses ddemocrataidd.

- **Dangos undod, arweiniad ac ymateb beiddgar i newidiadau cyfansoddiadol**
  Byddwn yn darparu gwasanaethau craffu a deddfu o'r radd flaenaf, gan gynorthwyo'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig.

- **Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith**
  Rhaid i bob dim a wnawn wrthsefyll prosesau craffu trylwyr. Rhaid i'n gwaith fod yn dryloyw a dylai adlewyrchu natur amrywiol Cymru a'i hieithoedd.

- **Gweithio'n gynaliadwy**
  Byddwn yn rheoli'n gwaith a'n hystâd yn y ffordd fwyaf cynaliadwy bosibl.

- **Gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol**
  Byddwn yn ceisio gwella'n barhaus y gwasanaethau a ddarparwn i'r Aelodau ac i bobl Cymru, gan ddangos ein bod yn defnyddio'n hadnoddau'n ddoeth ac yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian.

6. Sefydlodd Comisiwn y Cynulliad fframwaith llywodraethu a rheoli mewnol hefyd, ac mae'n gyfrifol am ei weithredu. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys safonau ariannol a ffactorau allweddol eraill sy'n rheoli polisïau, fel cynaliadwyedd a chydraddoldeb. Penodwyd pedwar Cynghorydd Annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr y Cynulliad ac uwch reolwyr y Comisiwn yn cael cymorth ac yn cael eu herio'n adeiladol yn eu rolau. Mae cyfrifoldebau'r Cynghorwyr yn cynnwys monitro perfformiad a chadw golwg beirniadol ar weithdrefnau rheoli arian a rheoli risg y Comisiwn. Rydym hefyd yn gweithio'n agos ac yn gadarnhaol gyda'n archwilwyr mewnol, a'n harchwilwyr allanol - Swyddfa Archwilio Cymru.

7. Mae Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn yn cynnwys Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad, William Graham AC, a thri o Gynghorwyr Annibynnol y Comisiwn. Mae gan y Pwyllgor rôl debyg i rôl pwyllgor archwilio mewn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus a chyrff mawr yn y sector preifat. Mae'n cynghori'r Comisiwn ynghylch materion yn ymwneud â risg, archwilio, llywodraethu da ac arferion ariannol ac mae hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n bresennol yn y cyfarfodydd ynghyd â chydweithwyr perthnasol. Mae cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a'n harchwilwyr mewnol, RSM Bentley Jennison, hefyd yn bresennol.

8. Er mwyn datblygu perfformiad yn erbyn yr amcanion strategol, mae'r Comisiwn wedi cryfhau'r sefydliad mewn sawl man, gan gynnwys ymagwedd well at reoli risg, cynllunio parhad busnes a chyflwyno rhaglen datblygu arweinyddiaeth gynhwysfawr.

9. Mae Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2008-09 yn amlygu'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys yr hyn a ganlyn:

- Pasiwyd y Mesur Cynulliad cyntaf erioed, y Mesur ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007, ar 6 Mai 2008, sef y gyfraith ddwyieithog gyntaf erioed i gael ei phasio ym Mhrydain.
- Pasiwyd pedwar Mesur Cynulliad arall.
- Gwnaed tri Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, a drosglwyddodd bwerau deddfu i'r Cynulliad.
- Mae Pwyllgorau'r Cynulliad wedi craffu ar saith Gorchymyn arall cyn y broses ddeddfu, gan gynnwys dau a gynigwyd gan Aelodau'r meinciau cefn.
- Cyflwynwyd y Mesur cyntaf a gynigwyd gan Bwyllgor – Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, sy'n cynnig rhoi rôl statudol i'r Comisiynydd Safonau.

- I gyflawni hyn, cynhaliodd y pwyllgorau deddfwriaeth 85 o gyfarfodydd, cyfarfu'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth 32 gwaith a chynhaliodd y pwyllgorau craffu 257 o gyfarfodydd.
- Cefnogwyd hwy yn y rôl hon gan dimau cyfreithiol a chlercio'r Comisiwn, a chan y 4,425 darn o waith a wnaed gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.
- Anfonwyd 150 o ddeisebau at y system e-ddeisebau ers ei lansio ym mis Ebrill 2008.
- Mae dros 23,000 o ddisgyblion wedi elwa o'r gwasanaeth addysg allgymorth newydd, ac ymwelodd dros 145,000 o bobl â'r Senedd yn ystod y flwyddyn. Agorodd y Tywysog Siarl Siambr Hywel, y siambr drafod bwrpasol gyntaf yn Ewrop i ieuenctid, ym mis Ebrill 2008.

10. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad heb ei gymhwyso ar Gyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2008-09. Cyhoeddir adroddiadau ar reoli perfformiad ariannol yn rheolaidd a bydd y Comisiwn a'r Bwrdd Rheoli yn eu hystyried. Roedd yr alldro cyllidebol ar gyfer 2008-09 o fewn 4.7% i'r gyllideb adnoddau o £46.181 miliwn. Roedd y tanwariant hwn yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- 1.8% mewn perthynas â Chyflog a Lwfansau'r Aelodau o ganlyniad i newidiadau llai nag a ddisgwyliwyd yn y ddarpariaeth bensiwn (0.6%); costau llai na ddisgwyliwyd sy'n ymwneud â chyflogau Aelodau'r Cynulliad (0.3%); a llai o wariant nag a ddisgwyliwyd ar lwfansau Aelodau'r Cynulliad (0.9%). Rydym wedi cynnwys y tanwariant hwn yn ein rhagdybiaethau ar gyfer 2010-11.
- 1.1% mewn perthynas â gwasanaethau'r Comisiwn, yn bennaf oherwydd na fu'n rhaid defnyddio'r holl arian wrth gefn.
- 1.8% mewn perthynas â dibrisiant a thaliadau llog tybiannol o ganlyniad i orbrisio'r rhagolygon costau.

***Y wybodaeth ddiweddaraf am 2009-10***

11. £47,751 yw cyllideb wreiddiol adnoddau'r Comisiwn ar gyfer 2009-10, gyda chynnydd o 3.4% ar y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2008-09. Mae'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer costau na ellir eu hosgoi, megis ymrwymiadau contractiol a chwyddiant cyflogau a phrisiau, a buddsoddiad i gynnal amcanion y Comisiwn, sy'n galluogi'r Cynulliad i dyfu ac i barhau i weithredu'n effeithiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r buddsoddiad yn cynnwys systemau TGCh, megis y feddalwedd ddeddfwriaeth i gynnal Mesurau'r Cynulliad, a'r System Cyhoeddi Lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Mae hefyd yn ymwneud â gwella gwasanaethau allgymorth y Cynulliad, a rhaglen o weithgareddau ledled Cymru yn ystod y flwyddyn i ddathlu 10 mlynedd ers sefydlu'r Cynulliad. Bydd hyn oll yn cryfhau'r ymgysylltiad

â phobl Cymru. Rydym hefyd yn cynyddu capasiti ein cyfrifoldebau corfforaethol, megis cynaliadwyedd, rheoli cyllid a sicrhau bod yr adnoddau ar gael i gefnogi'r llwyth gwaith deddfwriaethol y Cynulliad sy'n tyfu. Eglurir hyn ymhellach yn y paragraffau nesaf.

12. Mae gweithgaredd y pwyllgorau yn parhau i gynyddu. Cynhaliwyd 374 o gyfarfodydd pwyllgor, yn bwyllgorau deddfwriaethol a chraffu, yn ystod 2008-09. Fel y nodwyd yr amser hwn y llynedd, mae'r amser ar gyfer y Cyfarfodydd Llawn wedi cynyddu i 9 awr yr wythnos. Ni ddisgwylir i weithgaredd y pwyllgorau fod yn ddim llai yn 2010-11 a bydd y cynnydd mewn gweithgaredd deddfwriaethol, sy'n cael ei egluro isod, yn parhau i effeithio ar yr amser ar gyfer y pwyllgorau deddfwriaeth a'r Cyfarfod Llawn.

13. Tyfodd y rhaglen ddeddfwriaethol a gefnogir gan y staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan y Comisiwn yn sylweddol iawn yn ystod yr ail flwyddyn ers sefydlu'r Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, roedd y rhaglen yn cynnwys un Mesur Cynulliad Arfaethedig a'r hyn a oedd yn cyfateb i rhwng 4 a 5 Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig. Tyfodd hyn, yn 2008-09, pryd y pasiwyd tri Mesur Arfaethedig, roedd un yn agos at gael ei gymeradwyo ac roedd tri arall yn cael eu hystyried, ac ystyriwyd yr hyn sy'n cyfateb i 3 Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig. Yn ystod 2009-10, disgwylir (ar sail y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn cael ei thrafod ac sydd wedi'i chynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y 12 mis nesaf) y bydd angen defnyddio adnoddau'r Comisiwn gynnal y broses o ystyried oddeutu 8 Mesur Arfaethedig a 4 Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig. Mae'n debyg y bydd lefel debyg o weithgaredd deddfwriaethol yn cael ei gynnal yn ystod 2010-11, sef pedwaredd flwyddyn a blwyddyn olaf y Trydydd Cynulliad.

14. Amlygodd cynigion y Comisiwn ar gyfer cyllideb 2009-10 bod nifer o ddatblygiadau ychwanegol ar y gorwel a allai effeithio ar y gyllideb. Y datblygiad mwyaf nodedig yw adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau sy'n ymwneud â TGCh ar gyfer y Cynulliad a gwella a chynnal gallu'r Cynulliad ymhellach i ehangu'r ymgysylltiad â'r cyhoedd (*i-change*). O fewn hyn, cytunwyd ers hynny ar yr angen i greu rhwydwaith TG unedig, a fydd yn cyfuno systemau'r Aelodau â rhai'r Comisiwn. Bydd hyn yn gwahanu seilwaith TGCh y Cynulliad a seilwaith Llywodraeth Cymru. Wedi ystyried y costau a'r buddiannau'n ofalus, mae'r Comisiwn wedi penderfynu ymgeisio am gyllideb atodol o £1.950 miliwn yn 2009-10 i ariannu'r gost lawn o £2.667 miliwn yn rhannol. Bydd y gweddill, sef £0.717 miliwn, yn dod o arbedion a chyllideb wrth gefn y Comisiwn.

## *Cynigion Cyllideb ar gyfer 2010-11*

15. Ar gyfer y dyfodol, bydd yn rhaid i'r Comisiwn barhau i ragweld a chynllunio ar gyfer ei lwyth gwaith sy'n newid, a gofynion y Cynulliad a'i Aelodau, ac ymateb iddynt, ac ymgysylltu'n effeithiol â phobl Cymru. Yn benodol, ac yn ychwanegol at y gweithgareddau gweithredu arferol, rhaid i'r Comisiwn gynllunio ar gyfer a gweithredu argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar gyllid a chefnogaeth arall ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

16. Mae'r Comisiwn yn cynnig cynnydd o 2.6% yn y gyllideb ar gyfer 2010-11, gan osod cyllideb adnoddau o £48.973 miliwn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r amgylchiadau economaidd presennol a'r pwysau oherwydd hynny ar y sector cyhoeddus a phobl yng Nghymru. Ein huchelgais oedd gosod cyllideb dynnach hyd yn oed, ond ni allwn gael y risg o beidio â gallu cyllido'r gwasanaethau y mae gofyn i ni eu darparu i'r Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym yn ymrwymo y byddwn yn rheoli'r adnoddau hyn mor ofalus â phosibl, gyda'r bwriad o wneud arbedion effeithlonrwydd ac ariannol yn ystod y flwyddyn, a chyda'r amcan cadarn y bydd y swm a wariwn yn llawer llai na'r hyn a amcangyfrifwyd yn y gyllideb. Mae'r paragraffau a ganlyn yn disgrifio'r rhesymeg ar gyfer y gyllideb hon.

17. Mae Tabl 2 yn cymharu cyllideb adnoddau net 2009-10 a chyllideb adnoddau net ddrafft 2010-11:

**Tabl 2: Cymharu Cyllidebau 2009-10 a 2010-11**

| | | | **£000** |
|---|---|---|---|
| | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| **Cyllideb net 2009-10 a gymeradwywyd ar gyfer Comisiwn y Cynulliad:** | **47,042** | **709** | **47,751** |
| **Gofyniad adnoddau net 2010-11 (y gyllideb ddrafft)** | **48,198** | **775** | **48,973** |

18. Mae'r cynnydd arfaethedig o £1.222 miliwn (2.6%) yn rhannu'n ddwy ran – gwariant ar wasanaethau'r Comisiwn a Chyflog a Lwfansau Aelodau, a thaliadau heb fod yn rhai ariannol, sef llog ar gyfalaf, dibrisiant a darpariaethau.

19. Mae'r gwariant ar wasanaethau'r Comisiwn a Chyflog a Lwfansau Aelodau yn cynnwys y codiadau a'r arbedion a nodir yn nhabl 3:

**Tabl 3: Codiadau ac arbedion 2009-10 to 2010-11**

| | | £000 |
|---|---|---|
| Gostyngiadau cost | | |
| o | Prosiectau unigol a gwblhawyd | -1,194 |
| o | Arbedion yn y cyllidebau i adlewyrchu llai o alw/gweithgareddau | -412 |
| o | Alinio'r cyllidebau i gyd-fynd â'r gwariant hanesyddol ac adolygiad sylfaenol o gostau arwyddocaol o fewn y gyllideb | -1,008 |
| | | **-2,614** |
| Cynnydd mewn costau ar gyfer 2010-11 | | |
| o | Gwariant newydd fel y nodir yn Atodiadau 2 a 3 (heb gynnwys y taliadau nad ydynt yn rhai ariannol ar gyfer dibrisiant/llog tybiannol) | 2,066 |
| o | Cynnydd cynyddraddol mewn cyflogau ar gyfer staff y Cynulliad a staff cymorth yr Aelodau | 902 |
| | | **2,968** |
| Cynnydd yn y gyllideb o ganlyniad i'r uchod | | **354** |

20. Byddai'r newidiadau uchod wedi golygu cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2010-11 o 0.7% yn unig. Fodd bynnag, mae'r elfen nad yw'n elfen ariannol o'r gyllideb, sy'n cynnwys llog tybiannol ar gyfalaf, taliadau dibrisiant a darpariaethau, wedi cynyddu o ganlyniad i brosiectau cyfalaf a drefnwyd i'w cwblhau yn 2009-10. Mae'r ffaith bod y prosiectau cyfalaf hyn wedi eu cwblhau yn cyfateb, yn nhermau cyfrifyddu, i brynu asedau sefydlog, sy'n cynyddu'r taliad dibrisiant y mae'n rhaid gwneud cyfrif ohono. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys adeilad y Pierhead ac uno'r rhwydwaith TG. Mae'r taliadau nad ydynt yn rhai ariannol yn ychwanegu £0.868 miliwn at y gyllideb, sy'n golygu mai £48.973 miliwn yw cynnig y gyllideb ar gyfer 2010-11.

21. Oherwydd ei ansicrwydd, nid yw'r Comisiwn, yn fwriadol, wedi cyllidebu ar gyfer rhai materion sy'n gosod pwysau penodol, er ei bod yn debygol iawn y bydd costau ac y bydd yn rhaid eu talu, sef: setliadau cyflog neu chwyddiant cyflog ar gyfer Aelodau, staff cymorth a staff y Cynulliad; chwyddiant cyffredinol; unrhyw gostau sy'n codi o'r adolygiad annibynnol o gymorth ariannol a chymorth arall i Aelodau'r Cynulliad; a goblygiadau gweithredol sefydlu'r cyfleuster newydd i ymwelwyr yn adeilad y Pierhead. Mae'r Comisiwn yn bwriadu ariannu costau ychwanegol drwy nodi arbedion ac effeithlonrwydd pellach, a defnyddio'r gyllideb wrth gefn.

22. Fel y nodwyd uchod, mae'r Comisiwn yn cydnabod yr amgylchedd ariannol heriol a'r cyfyngiadau ariannol y mae'r sector cyhoeddus a'r economi gyfan yn eu hwynebu. Barn y Comisiwn yw y dylai geisio cyfyngu ar ei wariant lle bo hynny'n bosibl a chynllunio ar gyfer cyfnod o wario cyson ond darbodus dros y tair blynedd nesaf. Mae drafft terfynol y gyllideb yn cynnwys adnoddau sy'n ddigonol i fodloni ei amcanion allweddol, tra'n sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd hefyd. Mae'r ymagwedd a gymerwyd wrth lunio'r gyllideb a'r rheoliadau sydd ar waith i reoli'r gyllideb drwy gydol y flwyddyn wedi cael eu crynhoi isod:

- Mae'r rhagolygon chwyddiant ar gyfer 2010 yn awgrymu mai 2.5% fydd y mynegai prisiau manwerthu ac mai 1% fydd y mynegai prisiau prynwyr. Yn fwy perthnasol i wariant y Cynulliad ar nwyddau a gwasanaethau, awgrymir mai 1.5% fydd y datchwyddiant cynnyrch mewnwladol crynswth ar gyfer 2010-11. Nid yw'r costau chwyddiant wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb oherwydd nad yw'r rhagolygon yn sicr ar hyn o bryd.
- Cynhaliwyd adolygiad sylfaenol cyllidebol o'r llinellau cyllidebol sydd â chostau uchel, ac yn benodol y gwasanaethau sy'n rhoi cymorth gweithredol, megis adeiladau a TGCh. Amlygodd hyn gyfleoedd i leihau costau. Cafodd rhai eu cynnwys yn y gyllideb ddrafft, a bydd rhai yn cael eu datblygu yn y flwyddyn i ddod, er enghraifft ail-dendro contractau ac adolygu pa ffordd yw'r ffordd orau i ni gyrraedd y safonau disgwyliedig ond mewn ffordd fwy cost-effeithiol. Diben ymdrech y Comisiwn i wella effeithlonrwydd yw cynnal y gwasanaethau a gyflenwir, yn hytrach na'u cyfaddawdu, drwy wella beth sy'n cael ei gyflenwi gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, gan ganolbwyntio ar reoli costau, effeithlonrwydd a safonau'r gwasanaethau. Drwy sicrhau arbedion ac effeithlonrwydd pellach, byddwn yn ariannu'r pwysau nad oes arian ar ei gyfer, a nodwyd uchod.
- Ystyriwyd cynigion ar gyfer gwariant newydd yn erbyn amcanion a blaenoriaethau strategol y Comisiwn ar gyfer strategaeth y gyllideb, sef:
    - Sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, drwy gynnal y safonau a'r gwasanaethau ar gyfer y Cynulliad a'i Aelodau.
    - Darparu rhwydwaith unedig a chyflenwi rhaglen newid busnes i sicrhau effeithlonrwydd a gwelliannau i'r gwasanaethau yn yr hirdymor – buddsoddi yn awr er mwyn arbed arian yn y dyfodol.
    - Bodloni ymrwymiadau ystâd y Cynulliad, megis sefydlu cyfleuster newydd i ymwelwyr yn adeilad y Pierhead a lleihau effaith ystâd y Cynulliad o ran allyriadau carbon.

- Rheoli canlyniad yr adolygiad annibynnol o gymorth ariannol a chymorth arall i Aelodau'r Cynulliad
- Adolygu cyflog ac amodau staff y Cynulliad
- Paratoi ar gyfer yr etholiad nesaf a'r Pedwerydd Cynulliad, gan ystyried costau'r newidiadau i aelodaeth y Cynulliad.

o Bydd y rheoliadau i reoli'r gyllideb a safonau'r gwasanaethau'n cynnwys:

- Monitro perfformiad gweithgareddau allweddol fel rhan o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Comisiwn.
- Rheolaeth ariannol gadarn drwy'r flwyddyn.
- Adolygu pob swydd staff y Cynulliad sy'n dod yn wag.
- Gweithredu polisi trosglwyddo i reoli penderfyniadau ynglŷn â defnyddio cronfeydd wrth gefn.

### *Rhagolwg ar yr amcangyfrifon dros dro*

23. Yn y tabl isod, ceir rhagolwg ar yr amcangyfrifon dangosol. Maent yn ystyried, dros dro, y costau chwyddiant tybiedig a'r costau a gynlluniwyd ymlaen llaw yn unig, sy'n cynnwys costau yr ymrwymwyd iddynt eisoes ac sy'n codi ar adegau penodol yn ystod pedair blynedd y cylch etholiadol, a gwariant ar sicrhau asedau hanfodol newydd. Wrth fireinio'r amcangyfrifon dros dro hyn, bydd y Comisiwn yn ceisio parhau â'i strategaeth o sicrhau rheolaeth ariannol dynn a chadarn a chynyddu effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl. Caiff unrhyw newidiadau yn llwyth gwaith y Cynulliad, yng ngofynion yr Aelodau neu mewn lefelau chwyddiant, neu unrhyw ddatblygiadau newydd eraill, eu cynnwys yn yr adnoddau presennol, cyhyd ag y bo'n bosibl, ond mae'n amlwg y gallent effeithio ar y cyllidebau dangosol.

24. Yn benodol, ni chafodd y costau sy'n codi o Etholiadau'r Cynulliad yn 2011 eu cynnwys oherwydd ei bod yn anodd eu rhagweld a gallant newid, yn enwedig mewn perthynas â nifer yr Aelodau newydd yn dilyn yr etholiad. Fel yn 2007, proses y gyllideb atodol yw'r dull mwyaf addas o fynd i'r afael â hyn.

**Tabl 3: Cyllidebau adnoddau a chyllidebau ariannol dangosol a amcangyfrifwyd ar gyfer 2011-12 a 2012-13***

| | | **£000** |
|---|---|---|
| | **2011-12** | **2012-13** |
| Cyllideb Adnoddau Dangosol (ac eithrio adnoddau cronnus) | 52,423 | 52,176 |
| Cyllideb Cyfalaf Dangosol (ac eithrio adnoddau cronnus) | 2,210 | 700 |
| Cyllideb Adnoddau Cronnus Dangosol | 210 | 210 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyllideb Ariannol Dangosol | 46,703 | 46,008 |

** Mae'r amgylchedd economaidd presennol a'r ansicrwydd ynglŷn ag amcanestyniadau chwyddiant ac ariannu'r sector cyhoeddus yn ei gwneud yn anodd iawn amcangyfrif y costau ar gyfer y dyfodol yn gywir ar hyn o*

*Atodiad 1*

**Comisiwn y Cynulliad: Cyllideb ddrafft 2010-11 wedi'i alinio yn ôl gwasanaethau ac amcanion strategol**

| Gwasanaeth/swyddogaeth | Hyrwyddo ac ehangu diddordeb pobl mewn datganoli | Dangos undod, arweiniad ac ymateb beiddgar i newidiadau cyfansoddiadol | Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith | Gweithio'n gynaliadwy | Sicrhau bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a ddarperir yn y ffordd fwyaf effeithiol | **£000 Cyllideb** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol[1] | 193 | 193 | 676 | 290 | 580 | **1,932** |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol[2] | 99 | 198 | 99 | 65 | 198 | **659** |
| Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad[3] | 1,286 | 1,541 | 719 | 523 | 2,621 | **6,690** |
| Cyfarwyddiaeth Gweithredol y Cynulliad[4] | 4,281 | 1,798 | 5,172 | 3,204 | 5,366 | **19,821** |
| Eitemau heb fod yn rhai ariannol[5] | 1,114 | 1,114 | 1,114 | 1,113 | 1,113 | **5,568** |
| Cronfa wrth gefn[5] | 240 | 240 | 240 | 240 | 240 | **1,200** |
| **Gwasanaethau'r Comisiwn yn eu cyfanrwydd** | **7,213** | **5,084** | **8,020** | **5,435** | **10,118** | **35,870** |
| Cyflogau a lwfansau'r Aelodau, cyflogau Deiliaid Swyddi, cyflogau staff yr Aelodau[6] | | | | | | **13,103** |
| **Cyllideb Comisiwn y Cynulliad** | | | | | | **48,973** |

Mae eglurhad o'r gwasanaethau/swyddogaethau uchod ar dudalen 9.

## *Eglurhad o'r gwasanaethau/swyddogaethau*

### [1] Yr Uned Gorfforaethol

Mae'r Uned Gorfforaethol yn darparu gwasanaethau Ysgrifenyddol i Gomisiwn y Cynulliad ac i'r Bwrdd Rheoli ac yn rhoi cymorth i'r Llywydd a'r Prif Weithredwr; ac mae'n gyfrifol am Reoli Cofnodion, Rhyddid Gwybodaeth, Cyfathrebu Mewnol a Rheoli Archwiliadau. Mae 27 aelod o staff yn y gwasanaeth hwn. Mae gwariant newydd yn 2010-11 yn ymwneud ag adnoddau staff ychwanegol i reoli'r rhaglen i-change ac i arwain archwiliadau mewnol, sy'n wasanaeth a gontractiwyd i gwmni allanol yn y gorffennol.

### [3] Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad

Mae'r gyfarwyddiaeth hon yn rhoi cymorth seneddol arbenigol i'r Aelodau i sicrhau bod busnes y Cynulliad yn mynd rhagddo'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae'n cynnwys Gwasanaeth y Pwyllgorau; Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth; Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau; a'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. Mae 134 aelod o staff yn y gyfarwyddiaeth hon.

### [5] Eitemau heb fod yn rhai ariannol / Cyllid wrth gefn

Mae eitemau heb fod yn rhai ariannol yn cynnwys taliadau ar gyfer dibrisiant asedau cyfalaf, megis adeilad y Senedd a'i gynnwys, a thaliad llog tybiannol sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn. Codir llog tybiannol ar werth net yr asedau, ac eithrio asedau a gafwyd yn rhodd a balansau arian gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol. Mae hefyd yn cynnwys diwygiadau i ddarpariaeth Cronfa Bensiwn yr Aelodau. Mae'r gyllideb wrth gefn yn cynnig digon o hyblygrwydd i'r Comisiwn er mwyn iddo fedru ymateb i alwadau annisgwyl/newidiol etc. a all godi yn ystod y flwyddyn heb orfod gwneud cais i'r Cynulliad am

### [2] Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol: yn rhoi cyngor ynghylch Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau; yn rhoi cyngor ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol; yn craffu ar is-ddeddfwriaeth; yn rhoi cyngor i'r pwyllgorau a'r Aelodau i'w helpu i graffu ar waith y Llywodraeth; ac yn rhoi cyngor corfforaethol. Mae 10 aelod o staff yn y gwasanaeth hwn.

### [4] Cyfarwyddiaeth Gweithredol y Cynulliad

Mae'r gyfarwyddiaeth hon yn rhoi cymorth gyda gwaith cyfathrebu a chymorth gweithredol i'r Comisiwn, i Aelodau'r Cynulliad ac i bawb sy'n ymweld ag ystâd y Cynulliad. Mae'r prif brosiectau ar gyfer 2010-11 yn cynnwys diweddaru'r gwasanaeth darlledu, uwchraddio'r feddalwedd TGCh yn y Siambr a gweithgareddau i gryfhau'r ymgysylltiad â phobl Cymru. Mae 204 aelod o staff yn y gyfarwyddiaeth hon.

### [6] Cyflogau a lwfansau'r Aelodau, cyflogau Deiliaid Swyddi a chyflogau staff y Cynulliad

At ei gilydd, £5.258m yw cost cyflogau, sy'n cynnwys pensiynau a chyfraniadau yswiriant gwladol. Mae Aelodau'r Cynulliad yn cael lwfansau i redeg eu swyddfeydd etholaethol ac i gyflogi staff i'w cynorthwyo yn eu gwaith fel Aelodau'r Cynulliad. Y gost o gyflogi staff, gan gynnwys pensiynau a chyfraniadau yswiriant gwladol, yw £6.100m, ac mae'r lwfansau'n costio £1.703m. Mae Cyflog a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad wedi'u nodi yn 'Penderfyniadau', sydd i'w gweld yn

gyllideb atodol. Mae'n adlewyrchu'r drefn gyfrifyddu sy'n rhwystro adnoddau ac arian na chânt eu defnyddio rhag cael eu trosglwyddo o'r naill flwyddyn i'r llall.

www.cynulliadcymru.org.

*Atodiad 2*

## Cynigion gwariant newydd ar gyfer 2010-11 i gynnal yr amcanion strategol

| | | | £000 |
|---|---|---|---|
| | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| ***Gwella effeithlonrwydd a gwasanaethau drwy fuddsoddi mewn systemau TG:*** Newidiadau mewn perthynas â darlledu yn y Senedd, uwchraddio'r feddalwedd Medialon yn y Siambr, prynu a gosod gweinyddion, llwybryddion rhwydwaith a switsys ychwanegol ar gyfer y Senedd a phrosiect i gynllunio ar gyfer cael systemau TGCh newydd ar gyfer yr Aelodau yn dilyn etholiad 2011. | 174 | 700 | **874** |
| ***Cryfhau gweithgareddau i ymgysylltu â phobl Cymru:*** Canolbwyntio ar y Cynulliad - rhaglen o weithgareddau ledled Cymru yn ystod y flwyddyn; gwella'r rhaglen allgymorth sy'n cysylltu â chymunedau; datblygu technoleg e-ddemocratiaeth. | 25 | 75 | **100** |
| ***Cynnal gwaith y Cynulliad:*** talu costau staff a gaiff eu recriwtio i ddelio â gwaith y Cynulliad sy'n cynyddu, gwella effeithlonrwydd a chynnydd hysbys mewn costau sefydlog megis cyfleustodau, cyfraddau a gwasanaethau TGCh sydd ar gontract. | 892 | - | **892** |
| ***Taliadau heb fod yn rhai ariannol – taliad dibrisiant uwch:*** Taliadau dibrisiant uwch o ganlyniad i wariant cyfalaf yn 2009-10 | 868 | - | **868** |
| ***Mwy o arian wrth gefn*** Cynyddu lefel yr arian wrth gefn i 2.5% o'r gyllideb i gwmpasu'r ansicrwydd o ran chwyddiant yn y dyfodol | 200 | - | 200 |
| **CYNIGION GWARIANT NEWYDD AR GYFER 2010-11** | **2,159** | **775** | **2,934** |

***Atodiad 3***

## *Dadansoddi'r gyllideb yn ôl natur y gwariant a'r incwm*

| | Cyllideb 2010-11 | Cyllideb 2009-10 | £000 Gwir wariant 2008-09 |
|---|---|---|---|
| *Gwariant refeniw* | | | |
| Cyflogau a lwfansau'r Aelodau, cyflogau Deiliaid Swyddi, cyflogau staff yr Aelodau | 13,652 | 14,005 | 12,369 |
| Cyflogau staff gan gynnwys cyfnodau o secondiad mewnol | 14,338 | 13,871 | 12,193 |
| Costau Adnoddau Dynol gan gynnwys recriwtio a chyfarpar iechyd a diogelwch | 151 | 176 | 283 |
| Hyfforddiant corfforaethol a chostau hyfforddi a datblygu staff/ Aelodau | 250 | 250 | 270 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 208 | 230 | 158 |
| Costau TGCh gan gynnwys y wefan, darlledu a thrwyddedu a chostau cynnal a chadw | 4,008 | 3,978 | 4,017 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau gan gynnwys ardrethi, trydan, arwylo, glanhau a chynnal a chadw | 7,181 | 7,169 | 8,349 |
| Costau ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd, gan gynnwys gwasanaethau ymwelwyr, gwasanaethau allgymorth a digwyddiadau cenedlaethol | 896 | 921 | 548 |
| Costau gweinyddol eraill[1] | 1,456 | 1,652 | 1,698 |
| Dibrisiant a thaliadau llog tybiannol | 5,068 | 4,200 | 3,972 |
| Cronfa wrth gefn | 1,200 | 1,000 | - |
| Arbedion ac effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn | - | -250 | - |
| **Gwariant Refeniw Gros** | **48,408** | **47,202** | **43,857** |
| *Incwm Refeniw* | | | |
| Gwerthu nwyddau yn Siop y Cynulliad | -40 | -40 | -31 |
| Incwm o rentu adeiladau | -90 | -90 | -76 |
| Incwm amrywiol | -80 | -30 | - |
| **Gwariant Refeniw Gros** | **-210** | **-160** | **-107** |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **48,198** | **47,042** | **43,750** |
| | | | |
| Gwariant cyfalaf – creu asedau sefydlog | 775 | 709 | 260 |
| Incwm cyfalaf – gwerthu asedau sefydlog | - | - | - |
| **GWARIANT CYFALAF NET** | **775** | **709** | **260** |
| | | | |
| **GOFYNIAD ADNODDAU NET** | **48,973** | **47,751** | **44,010** |

[1] *Mae costau gweinyddol eraill yn cynnwys eitemau fel gwasanaethau dwyieithog, cyhoeddi a gwybodaeth electronig, postio ac offer swyddfa, a chostau gweinyddol cyffredinol eraill.*

*Atodiad 4*

## Cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r arian y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru

| | | | £000 |
|---|---|---|---|
| | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** |
| Gofyniad Refeniw Net | 48,198 | 50,213 | 51,476 |
| Gofyniad Cyfalaf Net | 775 | 2,210 | 700 |
| *Addasiadau:* | | | |
| Costau heb fod yn rhai ariannol (dibrisiant, llog tybiannol) | -5,068 | -5,220 | -5,668 |
| Diffygion | - | - | - |
| Newidiadau mewn darpariaethau | -500 | -500 | -500 |
| Elw/colled wrth werthu asedau | - | - | - |
| Newidiadau mewn stoc | - | - | - |
| Newidiadau o ran dyledwyr a chredydwyr | - | - | - |
| Defnyddio darpariaethau | - | - | - |
| Arall | - | - | - |
| **Gofyniad arian net o Gronfa Gyfunol Cymru** | **43,405** | **46,703** | **46,008** |